Y PASG

Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu: Dwyieithrwydd / Datblygu'r Gymraeg

- Creu casgliad o arteffactau yn gysylltiedig â'r Pasg a dysgu'r eirfa berthnasol
- Labelu'r arteffactau gan ddefnyddio'r cyfrifiadur
- Ymgyfarwyddo â'r idiomau 'tynnu dŵr o ddannedd', 'mawredd mawr' ac 'ar ben ei ddigon'
- Creu llyfryn/stori yn cynnwys idiom
- Edrych ar gyfarchion cardiau Pasg/cardiau pen-blwydd. Plant i greu eu cyfarchion eu hunain
- Llunio cerdyn i ddiolch am wy Pasg
- Trafod arddodiaid mewn ymateb i'r cwestiwn 'Ble mae'r wy Pasg?' O dan/wrth ymyl/y tu ôl i'r blodau a.y.y.b.
- Disgrifio rhai o'r cymeriadau
- Creu barddoniaeth syml am un o'r cymeriadau
- Creu hysbyseb i werthu wy Pasg
- Casglu geirfa sy'n ymwneud â'r Pasg
- Cyfarwyddiadau sut i wneud cacen Pasg syml, e.e. gwneud nyth allan o rawnfwyd a siocled
- Creu llyfryn 'Rydw i'n hoffi siocled/cwningen' a llyfryn 'Dydw i ddim yn hoffi . . .'

Datblygiad Mathemategol

- Setio gyda bocsys wyau – cyfri bob yn chwech
- Llunio graff – setio wyau Pasg yn unol â lliw/mewn bocs/rhuban
- Gwaith cyfaint syml, e.e. faint o flociau all ffitio i focsys o wahanol feintiau. Rhagdybio yna arbrofi
- Datrys problemau rhif – mae gennyf 3 wy Pasg, rwy'n prynu 10 arall, faint sydd gennyf nawr? Mae gennyf 13 wy Pasg, rwy'n bwyta saith, faint sydd gennyf ar ôl?

Gwyddoniaeth

- Trafod newidiadau ym myd natur yn y gwanwyn
- Trafod pa blanhigion/blodau sy'n tyfu yn y gwanwyn
- Anifeiliaid yn atgenhedlu, cylch bywyd cyw/llyffant/pili pala
- Coginio syml gyda'r plant; sylwi beth sy'n digwydd i siocled wrth iddo gael ei gynhesu/oeri
- Trafod bod anifeiliaid yn symud mewn gwahanol ffyrdd – sboncio, llithro, cerdded, nofio, a.y.y.b.
- Trafod pa fwydydd mae amrywiol anifeiliaid yn ei fwyta. Sylweddoli bod yn rhaid i bawb gael bwyd a dŵr i gadw'n fyw
- Trafod pa greaduriaid sy'n deor

Dyniaethau

- Trafod stori'r Pasg gyda'r plant
- Edrych o'r ochr ar wyau Pasg/arteffactau'r gwanwyn ac edrych i lawr arnynt. Cofnodi trwy lun, a chymharu'r gwahaniaeth rhyngddynt
- Gwneud map dychmygol o helfa wyau Pasg

Datblygiad Corfforol

- Plant i wneud gwahanol siapiau â'u cyrff. Pelen fechan, siâp cul, llydan, hir, tal, pigog
- Gwahanol ffyrdd o symud, cerdded/yn ôl/ymlaen/i'r ochr – sgipio, rhedeg, neidio, rholio
- Sgiliau gymnasteg syml gyda gwahanol fathau o rholio/symud
- Cynnal helfa drysor yn yr ysgol

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

- Trafod pwysigrwydd peidio â chymryd eiddo rhywun arall
- Trafod ein teimladau pan fyddwn wedi colli rhywbeth neu rywun annwyl
- Trafod adegau pan fyddwn ni'n derbyn/rhoi anrhegion

Datblygiad Creadigol

- Gwneud lluniau/collage o'r cymeriadau/gwrthrychau sy'n gysylltiedig â'r Pasg gan ddefnyddio amrywiol gyfryngau
- Gwneud crefftau a chardiau Pasg
- Gwneud modelau o'r gwahanol gymeriadau allan o amrywiol ddeunyddiau
- Gwrando ar gerddoriaeth a chyfansoddi darn syml i gyfleu hapusrwydd o dderbyn wy Pasg/tristwch fod rhywun arall wedi ei fwyta a.y.y.b

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

- Sylwi ar gardiau Pasg, a thrafod arwyddocad y lluniau
- Beth ydi arferion Pasg plant mewn gwledydd eraill
- Trafod Pasg yr Iddewon.

Technoleg Gwybodaeth

Anogir athrawon i hybu'r defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth wrth ymchwilio a chofnodi gwybodaeth